# Pwyllgor Safonau

Man Cyfarfod
**Ystafell Bwyllgor, Neuadd Maldwyn, Y Trallwng.**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Llun, 13 Mawrth 2017**

Amser y Cyfarfod
**11.00 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Elizabeth Patterson**
01597 826980
elizabeth.patterson@powys.gov.uk

24/02/2017

## AGENDA

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **COFNODION** | **S10-2017** |

I awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion cyfarfod/cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiad(au) canlynol fel cofnod cywir:
- 16 Rhagfyr 2016

(Tudalennau 5 - 6)

| | | |
|---|---|---|
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** | **S11-2017** |

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** | **S12-2017** |

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau mewn perthynas ag eitemau i'w trafod ar yr agenda.

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **EITEMAU EITHRIEDIG** | **S13-2017** |

I ystyried p'un ai i eithrio'r Wasg a'r cyhoedd o'r gwrandawiad i adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan:

- Adran 100 (A) 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinir ym mharagraff 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf,

Gofynnir i aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar brawf lles y cyhoedd, a rhaid iddynt benderfynu ar hyn wrth ystyried eithrio'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **YSTYRIED SYLWADAU A PHENDERFYNIAD TERFYNOL ADRODDIAD A LUNIWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU DAN ADRAN 71 (2) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000 (CYF 201504317)** | **S14-2017** |

I ystyried adroddiad y Dirprwy Swyddog Monitro.

(Tudalennau 7 - 8)

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | **EITEMAU EITHRIEDIG** | **S15-2017** |

I ystyried p'un ai i eithrio'r Wasg a'r cyhoedd o drafodaethau'r Pwyllgor Safonau dan:

- Adran 100 (A) 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ar y sail ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n destun unrhyw oblygiadau cyfrinachedd a'i fod yn berthnasol i drafodaethau Pwyllgor Safonau a sefydlwyd dan ddarpariaethau Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato fel y diffiniwyd ym mharagraffau 18 (a) ac 18 (c).

Gallai cynnal y trafodaethau hyn yn gyhoeddus rwystro trafodaethau llawn ac agored a fydd o anfantais i weinyddu busnes y pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **TRAFODAETHAU** | **S16-2017** |

I benderfynu ar y mater dan sylw.

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **PENDERFYNIAD** | **S17-2017** |

I gyhoeddi'r penderfyniad.